

Mae
Budd-daliadau
yn newid

Taflen Wybodaeth Diwygio Lles Help ychwanegol gyda symud tŷ

Os ydych chi'n byw mewn tŷ Cyngor neu dŷ sy'n eiddo i Gymdeithas Dai a bod gennych o leiaf un ystafell wely 'sbâr', efallai y bydd eich Budd-dal Tai yn cael ei leihau – gelwir hyn yn aml yn 'dreth ystafell wely'. Disgwylir i blant rannu ystafell wely.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi gwybodaeth am y cymorth ychwanegol sydd ar gael os bydd y 'dreth ystafell' wely yn effeithio arnoch chi a'ch bod yn penderfynu symud i dŷ llai.

Rhestr Aros â Blaenoriaeth i Symud i Eiddo Llai

Os ydych chi am symud i eiddo llai gallwch wneud cais i ymuno â'r rhestr hon.

Byddwn yn rhoi dau gynnig llety rhesymol i chi. Os byddwch yn gwrthod y ddau cewch eich gwahardd o'r rhestr hon ac ni chewch ragor o gynigion.

Cyfnewid eich tŷ â thenant arall

Gallwch gyfnewid tŷ ag un o denantiaid eraill y Cyngor neu Gymdeithas Dai. Nid oes angen i'r tŷ arall fod yng Nghaerdydd.

Gallwch ddod o hyd i denantiaid sydd am gyfnewid tai yn www.homeswapper.co.uk

Help gyda'r gwahaniaeth

Os na allwch fforddio i dalu'r gwahaniaeth yn eich rhent eich hun, mae'n bosibl y gallech hawlio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Gall y taliadau hyn eich helpu gyda'r lleihad yn eich Budd-dal Tai tra eich bod yn aros i symud tŷ.

I fod yn gymwys ar gyfer y taliadau hyn:

- Rhaid i chi fod ar y Rhestr Aros â Blaenoriaeth i Symud i Eiddo Llai.
- Rhaid i chi fod wedi dewis o leiaf un ardal o Gaerdydd lle mae llawer o eiddo o'r maint sydd ei angen arnoch chi ar gael.
- Rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru a meddu ar gyfrif ar Homeswapper.

Cartrefi ag addasiadau i bobl anabl

Os oes gan eich cartref addasiadau i helpu ag anabledd, bydd Tai Hygyrch Caerdydd ac adran Grantiau Cyfleusterau Anabledd y Cyngor yn gweithio gyda chi:

- i'ch helpu i ddod o hyd i eiddo pan nad oes angen addasiadau mwyach; neu
- roi addasiadau newydd i chi mewn tŷ newydd llai o faint

Mae budd-daliadau'n newid

Ydych CHI'n barod?

www.caerdydd.gov.uk/diwygiolles



029 2087 2088

Help gyda chostau symud

Gallai fod gennych hawl i £250 o'r gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i helpu â'ch costau symud. Telir yr arian hwn gan yr adran Budd-dal Tai i'ch cyfrif banc.

I gael y cymorth hwn rhaid eich bod yn symud i dŷ Cyngor neu Gymdeithas Dai newydd sy'n llai na'ch cartref presennol. Nid oes angen i'r tŷ newydd fod yng Nghaerdydd.

Gallwch wneud cais am y cymorth hwn pan fyddwch yn llofnodi am eich tenantiaeth newydd.

Help i roi trefn ar eich cartref newydd

Os ydych yn **un o denantiaid y Cyngor**, gallech hefyd hawlio Taliad Amharu Diwygio Lles. Taliad o £250 yw hwn i helpu â'r gost o roi trefn ar eich cartref newydd. Fe'i telir gan Uned Gosod Tai Cymdeithasol y Cyngor i'ch cyfrif banc.

Gallwch wneud cais am y cymorth hwn pan fyddwch yn llofnodi am eich tenantiaeth newydd.

Mae rhai Cymdeithasau Tai hefyd yn cynnig help. Dylai **tenantiaid Cymdeithasau Tai** gysylltu â'u landlord am ragor o wybodaeth.

Help os ydych am rentu'n breifat

Os ydych yn cael Budd-dal Tai, a'ch bod am symud i dŷ rhent preifat, gallech gael help gyda bond neu rent ymlaen llaw. I gael help, rhaid eich bod:

- wedi'ch effeithio gan Ddiwygio Lles neu fod gennych reswm da dros fod angen symud tŷ
- wedi dod o hyd i dŷ newydd yng Nghaerdydd a'ch bod yn barod symud i mewn iddo
- yn gallu fforddio'r rhent yn eich cartref newydd

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn gallwch fynd i'r Ganolfan Dewisiadau Tai yn Hansen Street (oddi ar Tresillian Terrace), Caerdydd, CF10 5WD neu ffoniwch 029 2057 0750.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am symud tŷ?

Nod Gwefan Tai Caerdydd yw helpu pobl sy'n chwilio am dŷ drwy roi gwybodaeth am lety rhent a fforddiadwy. Gall landlordiaid hefyd hysbysebu eu heiddo a chael gwybodaeth am safonau llety gofynnol, opsiynau achredu a materion eraill.

Y wefan yw www.taicaerdydd.co.uk

Pwy alla i gysylltu â nhw am ragor o wybodaeth?

Cysylltwch â ni...

- **Drwy ffonio:** 029 2053 7111
- **Drwy e-bostio:** [ymholiadautai@caerdydd.gov.uk](mailto:yhmholiadautai@caerdydd.gov.uk)
- **Drwy fynd i un o'n Hybiau yn y ddinas.** Cysylltwch â ni am ragor o fanylion neu ewch i www.caerdydd.gov.uk/hybiau

Mae cymorth ar gael mewn nifer o ieithoedd yn yr Hybiau.

Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau cyffredinol. Nid yw'n ddatganiad cyflawn nac awdurdodol o'r gyfraith.